# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Mawrth 2021

Amser: 09.15 - 12.05

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/11057) yn:

http://senedd.tv/cy/11057

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Nick Ramsay AS (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AS<br>Vikki Howells AS<br>Delyth Jewell AS<br>Darren Millar AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Llyr Gruffydd AS |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Matthew Mortlock<br>Dave Thomas<br>Fay Bowen (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Chloe Corbyn (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2a Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (11 Chwefror 2021)

### 2b Gwasanaethau gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (12 Chwefror 2021)

## 3 Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Bumed Senedd: Llywodraeth Cymru – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / GIG Cymru

3.1 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn gydag Andrew Goodall – Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru ynghylch ei fyfyrdod ar y Pumed Cynulliad/Bumed Senedd i helpu i lywio Adroddiad Gwaddol y Pwyllgor.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Myfyrdod ar y Pumed Cynulliad/y Bumed Senedd: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth a gafwyd a'r hyn yr oeddent am ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Gwaddol.

5.2 Gofynnodd y Pwyllgor i'r Cadeirydd ysgrifennu at Dr Goodall i ofyn am eglurhad ar nifer o faterion a godwyd.

## 6 Rhwystrau i Weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Trafod yr adroddiad drafft, a chytuno arno

6.1 Ymunodd Llyr Gruffydd AS â'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

6.2 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Awgrymwyd nifer o ddiwygiadau y bydd y Pwyllgor yn eu trafod ymhellach yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2021.